## Cyd-destun

209. Mae polisi gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau mwy o amrywiaeth yn y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu trwy gwmnïau cydfuddiannol, cyflawni gwaith yn fewnol, comisiynu ar y cyd a pherchnogaeth gymunedol. Mae'n golygu rhoi grym i bobl a chymunedau. Mae hyn yn adlewyrchu amgylchedd mwy cymhleth, ac mae angen arweinyddiaeth gref a newid mewn diwylliant ac ymarfer. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hamlinellu yn y Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.

210. Mae'r Rheoliadau a'r cod ymarfer wedi'u rhoi ar waith i gefnogi awdurdodau lleol yn eu dyletswydd, sef annog twf a datblygiad modelau busnes dielw preifat newydd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys diffiniadau eang a chynhwysol o fenter gymdeithasol a sefydliad trydydd sector. Bwriad y Rheoliadau a'r cod ymarfer statudol yw cefnogi twf mentrau cymdeithasol, sefydliadau neu drefniadau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a sefydliadau'r trydydd sector, yn hytrach na gosod yn y gyfraith ddiffiniadau newydd o'r dulliau a'r modelau hyn.

211. Bwriad dyletswydd gyffredinol adran 16 yw tyfu'r ystod o fodelau dielw preifat yn y sector gofal cymdeithasol. Mae'r Rheoliadau a'r cod ymarfer statudol yn cefnogi rhoi'r ddyletswydd honno ar waith.

212. Mae Rheoliadau a chod ymarfer adran 16 wedi'u cynllunio i gynnwys modelau newydd a'r modelau diweddaraf ac i hyrwyddo modelau gwasanaeth amgen ac arloesol.

213. Wrth ddefnyddio'r cod ymarfer hwn a chyflawni dyletswydd gyffredinol adran 16, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ystyried y canllawiau presennol, y cymorth a'r diffiniadau sy'n berthnasol i'r sefydliadau a'r gweithgareddau hyn.

### Mentrau Cymdeithasol

214. Mae yna sawl diffiniad o fentrau cymdeithasol sy'n helpu awdurdodau lleol ac eraill i feddwl am ddatblygu modelau busnes dielw preifat. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn Hwb Gwybodaeth a Dysgu'r Cyngor Gofal[2]. Mae Busnes Cymru yn disgrifio menter gymdeithasol fel busnes ag amcanion cymdeithasol yn bennaf. Mae elw yn cael ei ail-fuddsoddi yn y busnes neu yn y gymuned, yn hytrach na chynyddu'r elw i randdeiliaid a pherchnogion.

[2] http://www.ccwales.org.uk/getting-in-on-the-act-hub/

215. Mae mentrau cymdeithasol yn cystadlu yn y farchnad hefyd, ac mae angen iddynt gael eu rheoli'n dda er mwyn gwneud elw a chyflawni eu nodau cymdeithasol. Maent yn amrywio o siopau pentref bach sydd dan berchnogaeth y gymuned i sefydliadau mawr sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

216. Mae mwy o wybodaeth a chanllawiau ar fentrau cymdeithasol ar gael yn y llefydd canlynol:

- Canolfan Cydweithredol Cymru www.cydweithredolcymru.org.uk
- Busnes Cymdeithasol Cymru https://business.wales.gov/socialbusinesswales/
- Cwmnïau Cymdeithasol Cymru http://www.socialfirmswales.co.uk/
- Social Enterprise UK http://www.socialenterprise.org.uk/about/about-social-enterprise

**Mentrau Cydweithredol**

217. Mae'r International Co-operative Alliance yn amlinellu saith egwyddor a chanllaw cydweithredol y mae mentrau cydweithredol yn eu harddel i roi eu gwerthoedd ar waith, sef:

- Aelodaeth Wirfoddol ac Agored
- Rheolaeth Ddemocrataidd Aelodau
- Cyfranogiad Economaidd Aelodau
- Ymreolaeth ac Annibyniaeth
- Addysg, Hyfforddiant a Gwybodaeth
- Cydweithrediad ymhlith Cwmnïau Cydweithredol
- Ymddiddori yn y Gymuned

218. Mae mwy o wybodaeth a chanllawiau ar sefydliadau cydweithredol ar gael yn y llefydd canlynol:

- The International Co-operative Alliance http://ica.coop/
- Canolfan Cydweithredol Cymru www.cydweithredolcymru.org.uk

**Y Trydydd Sector**

219. Mae Cynllun Trydydd Sector Llywodraeth Cymru yn amlinellu diffiniad o'r Trydydd Sector. Mae'n dweud y derbynnir yn eang fod sefydliadau'r Trydydd Sector:

- Yn gyrff anllywodraethol, annibynnol;
- Wedi'u sefydlu'n wirfoddol gan bobl sy'n dewis trefnu eu hunain;
- Yn cael eu sbarduno gan amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol, yn hytrach na'r awydd i wneud elw;
- Wedi ymrwymo i ail-fuddsoddi eu gwargedau er mwyn cyflawni eu nodau cymdeithasol ac er budd pobl a chymunedau yng Nghymru.

220. Mae mwy o wybodaeth a chanllawiau ar sefydliadau'r trydydd sector ar gael yn y llefydd canlynol:

- Cynllun Trydydd Sector Llywodraeth Cymru http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/voluntarysector/?skip=1&lang=cy
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) http://www.cggc.org.uk/home?seq.lang=cy-GB

221. Mae mwy o ganllawiau, cymorth a ffynonellau gwybodaeth ar gael yn Hwb Gwybodaeth a Dysgu'r Cyngor Gofal[3].

222. Mae'r cod yn sail i egwyddorion y Ddeddf, gan sicrhau bod pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, yn cyfrannu'n llawn at y gofal a'r cymorth hwnnw.

223. Y bwriad yw y bydd perfformiad dyletswydd adran 16 yn cynyddu amrywiaeth y ddarpariaeth sydd ar gael, gan gydnabod na fydd un dull yn addas i bawb. Mae hefyd yn ceisio hwyluso amgylchedd lle bydd pobl yn gallu cefnogi eu hunain yn well, lle bo hynny'n briodol.

224. Mae'r gwaith o ddatblygu a hyrwyddo sefydliadau dielw yn gallu hyrwyddo nodau amgylcheddol a chymdeithasol eraill, sydd o fudd i'r gymuned mewn sawl ffordd.

225. Bydd y dull hwn yn cefnogi arloesedd a chreadigrwydd, yn cynyddu gwydnwch y gymuned ac yn lleihau'r risg o ddibyniaeth ar un math o ddarpariaeth gwasanaethau.

## Dyletswydd i hyrwyddo – beth mae'n ei olygu?

226. Mae'r Ddeddf yn gofyn am newid diwylliant o'r ffordd mae gwasanaethau wedi bod yn cael eu darparu i ddull sy'n seiliedig ar bartneriaethau, a pherthynas gyfartal rhwng ymarferwyr a phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar lesiant a sut y gall gwasanaethau helpu pobl i gyflawni'r **hyn sy'n bwysig iddynt.**

227. Mae dyletswydd gyffredinol adran 16 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio a dangos **dull rhagweithiol** yn dilyn yr asesiad poblogaeth o anghenion gofal a chymorth a amlinellir yn adran 14. Rhaid i asesiad poblogaeth adran 14 gynnwys syniad o ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r angen hwnnw. Dylai hefyd asesu'r hyn a ddarperir gan fentrau cymdeithasol, sefydliadau a threfniadau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.

[3] http://www.ccwales.org.uk/getting-in-on-the-act-hub/

- Cynnwys pobl yn y gwaith o gynllunio canlyniadau ar gyfer gwasanaethau.


238. Rhaid i bobl gyfrannu at gynllunio a darparu gwasanaethau, a chynhyrchu asesiad poblogaeth, fel yr amlinellir yn y cod ymarfer hwn.

239. Bydd dull cyd-gynhyrchu yn cyfrannu pob math o brofiad, sgiliau a gwybodaeth at y gwaith o gynllunio a gweithredu gwasanaethau. Mae mwy o wybodaeth am gyd-gynhyrchu ym mharagraff 248.

240. Mae adran 15 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu ystod a lefel o wasanaethau ataliol y credant y byddant yn cyflawni'r dibenion a amlinellir yn adran 15(2). Mae'r ffocws cynyddol ar ymyrraeth gynnar ac atal yn gofyn am gydnabyddiaeth o'r adnoddau hynny sydd eisoes ar waith yn y gymuned.

**Meysydd Allweddol**

241. Mae'r meysydd yn dod o dan bum prif bennawd. Mae'r meysydd hyn yn hollbwysig o ran helpu awdurdodau lleol gyda'u dyletswydd i hyrwyddo a'u helpu i ddangos sut maent yn cyflawni eu dyletswydd. Dangosir y rhain yn y diagram isod:




242. Bwriad yr egwyddorion a'r arferion **cyd-gysylltu** yw adeiladu'r economi graidd leol o bobl sy'n cyfnewid eu sgiliau, eu diddordebau a'u hamser.

Byddant yn helpu i newid y pwyslais tuag at gymorth a grëir trwy gydfuddiannau ac ymrwymiad cyffredin pobl sydd wedi buddsoddi ynddo. Mae mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy’n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a sefydliadau’r trydydd sector yn fathau o sefydliadau sy’n addas ar gyfer egwyddorion cyd-gynhyrchu oherwydd eu bod yn aml yn sefydliadau aelodaeth, democrataidd.

243. Mae hyn yn gofyn am ddull newydd o **fesur llwyddiant** sy’n cynnwys casglu gwybodaeth am a yw cymorth yn cyflawni’r pethau sy’n bwysig i bobl. Rhaid i fesuriadau edrych ar **ganlyniadau** personol a llesiant ar lefel poblogaeth ar gyfer unigolion. Mae hyn yn amlwg yn yr ymagwedd gyffredinol at ganlyniadau personol, yn y datganiad llesiant ac yn y fframwaith canlyniadau cenedlaethol. Bydd rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn hollbwysig wrth fesur llwyddiant.

244. Mae gan awdurdodau lleol gyfraniad pwysig i’w wneud o ran **creu’r amgylchedd iawn** lle gall pobl â diddordeb mewn cefnogi poblogaeth ardal leol ddod at ei gilydd i greu’r cymorth sydd ei angen arnynt. Dylai’r rôl hon gynnwys: creu amgylchedd lleol i hyrwyddo llais a rheolaeth defnyddwyr ar bob lefel a chodi ymwybyddiaeth o’r cyfraniad y gall mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau sy’n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a’r trydydd sector ei wneud at gyflawni amcanion polisi’r Ddeddf. Dylent weithredu hefyd fel gwasanaethau ataliol i gyflawni’r dibenion a amlinellir ym mhennod 3.

245. Bydd y dull mwy agored hwn o nodi cyfleoedd cyffredin yn gofyn am drefniadau mwy hyblyg ar gyfer **cynllunio, hyrwyddo a darparu gwasanaethau**. Mae’r gweithgareddau craidd hyn yn berthnasol o dan cynllunio a darparu gwasanaethau (gweler adran 14 o’r Ddeddf). Bydd hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar gynnwys pobl yn y broses a mwy o ffocws ar ganlyniadau personol a hyrwyddo’r cydbwysedd iawn rhwng effeithlonrwydd adnoddau a budd i’r gymuned.

246. Mae dull cydweithredol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy’n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a’r trydydd sector yn cael eu hyrwyddo’n llwyddiannus.

**Gwybodaeth ac adnoddau**

247. Mae pob math o wybodaeth ac adnoddau ar gael i gefnogi awdurdodau lleol, mentrau cymdeithasol presennol neu newydd, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy’n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a’r trydydd sector.

259. Bydd data ansoddol, fel yr amlinellir yn y cod hwnnw, yn cynnwys gofyn i bobl am eu profiad o wasanaethau cymdeithasol ac a yw hyn wedi cyfrannu at wella eu llesiant. Rhaid i'r data hwn gael ei ddeall yng nghyd-destun perfformiad awdurdodau lleol i weld yr effaith mae gwasanaethau yn ei chael ar fywydau pobl.

260. Bydd yr asesiad poblogaeth, a amlinellir ym mhennod 2, yn llywio'r mathau o fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol neu sefydliadau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr neu'r trydydd sector sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth a nodir. Gall unrhyw werthusiad o'r modelau darparu hyn lywio'r asesiad poblogaeth trwy ddarparu tystiolaeth o'r graddau mae'r anghenion gofal a chymorth hyn yn cael eu diwallu.

261. Bydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn gwneud cyfraniad allweddol at fonitro cynnydd ac effaith y ddyletswydd hon fel rhan o'i threfniadau cofrestru, rheoleiddio ac arolygu. Mae trefniadau rheoleiddio i'r dyfodol yn cael eu datblygu gyda digon o hyblygrwydd i alluogi modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau yn y system reoleiddio, pan fo hynny'n briodol.

262. Wrth ddeall canlyniadau llesiant personol pobl, <u>rhaid i awdurdodau lleol:</u>

- **Ystyried y canlyniadau personol a amlinellir yn y datganiad llesiant**
- **Ystyried effeithiolrwydd mentrau cymdeithasol, sefydliadau a threfniadau cydweithredol, sefydliadau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector o ran helpu pobl i gyflawni llesiant**

## Creu'r Amgylchedd Iawn

263. Mae gan awdurdodau lleol gyfraniad pwysig i'w wneud at greu amgylchedd a fydd yn hyrwyddo cyfranogiad pobl ar bob lefel wrth gynllunio, dylunio, hyrwyddo a gweithredu gwasanaethau. Bydd dyletswydd gyffredinol adran 16 yn elfen bwysig yn y nod cyffredinol hwnnw.

264. Mae arweinyddiaeth yn hollbwysig wrth greu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer twf y modelau hyn, ac efallai yr hoffai awdurdodau lleol ystyried rolau sy'n hyrwyddo y dulliau hyn. Efallai yr hoffent hefyd ystyried rolau swyddog â chyfrifoldeb penodol dros ddatblygu mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.

265. Rhaid i awdurdodau lleol ar y cyd â phartneriaid bwrdd iechyd lleol sefydlu fforymau rhanbarthol i helpu darparwyr sy'n seiliedig ar werth cymdeithasol

i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r agenda gyffredin ac i rannu a datblygu arfer da. Nod y fforwm hwn yw annog sector gwerth cymdeithasol ffyniannus sy'n gallu cynnig cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau ac sy'n barod i wneud hynny.

266. Rhaid i'r fforwm hwn fod ar waith erbyn mis Medi 2016, gyda chylch gorchwyl ac aelodaeth gytunedig a blaengynllun ar gyfer ei gyfarfodydd. Rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu arweinyddiaeth ar gyfer y fforwm a chymorth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y cyfarfodydd. Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad bob tair blynedd ar weithgareddau'r fforwm a sut y mae wedi cyfrannu at gyflawni dyletswyddau o dan adran 16. Rhaid i'r adroddiad cyntaf gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2019.

267. Dylai cyfleoedd gael eu creu i alluogi pobl i rannu'r pethau y gallant eu gwneud, y potensial a'r rhwystrau i lesiant. Er enghraifft, dylid ystyried y gwaith o greu paneli lleol a rhanbarthol a fyddai'n cynnwys awdurdodau lleol, dinasyddion a darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd i lywio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl sydd angen gofal a chymorth. Yn 2015-16, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu paneli dinasyddion rhanbarthol ar draws mentrau cydweithredol rhanbarthol: http://llyw.cymru/newsroom/healthandsocialcare/2014/140626regional-leadership/?lang=cy

268. Ledled Cymru, mae yna sawl enghraifft o fentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol a'r trydydd sector yn darparu gwasanaethau arloesol. Mae'r adroddiad, *Cyflawni'r Ddyletswydd*[7], yn darparu canllawiau ar sut y gellir creu cyfleoedd i bobl sefydlu a rhedeg eu gwasanaethau gofal a chymorth eu hunain. Mae awdurdodau lleol eisoes wedi defnyddio dulliau eraill ym maes cymorth a gofal cymdeithasol, hamdden a thai, er enghraifft. Mae gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a Cwmnïau Cymdeithasol Cymru astudiaethau achos o wasanaethau amgen ar waith yng Nghymru, ac mae mwy o enghreifftiau a gwybodaeth ar gael yng Nghanolfan Gwybodaeth a Dysgu'r Cyngor Gofal[8].

269. Dylai awdurdodau lleol geisio codi ymwybyddiaeth o rôl mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector o ran helpu pobl i gael gofal a chymorth o safon uchel, a'r manteision ac ystod y cymorth sydd ar gael. Dylai'r gwaith o rannu arfer da yn y maes hwn gael ei hwyluso gan awdurdodau lleol. Yn ogystal, dylai awdurdodau

---

[7] http://llyw.cymru/topics/health/socialcare/act/resources/?lang=cy
[8] http://www.ccwales.org.uk/getting-in-on-the-act-hub/

chymorth ac anghenion gofalwyr er mwyn llywio gwahanol benderfyniadau cynllunio a gweithredol. Bydd adroddiad asesiad poblogaeth yn cynnwys yr asesiad o angen ac ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol. Dylai hyn lywio'r broses o gomisiynu gofal cymdeithasol gan awdurdodau lleol a galluogi awdurdodau lleol i fynd ati i sicrhau gwasanaethau.

275. Gall gofal a chymorth ddod o lawer o wahanol ffynonellau, er enghraifft, gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau eu hunain fel cyfranwyr gweithredol, ffrindiau, teuluoedd, cefnogwyr, gofalwyr, gwasanaethau a ddarperir gan y sector annibynnol neu'r trydydd sector, modelau busnes megis mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, trefniadau cydweithredol a gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr. Rhaid i awdurdodau lleol gyflawni dyletswydd gyffredinol adran 16 wrth nodi a sicrhau gofal a chymorth priodol.

276. Trwy hyrwyddo manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol wrth gaffael, a thrwy ddatblygu meini prawf gwerth am arian sy'n ystyried effaith economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol dros y tymor byr a hir, gall awdurdodau lleol weithio tuag at gyflawni'r nod hwn a chyflawni canlyniadau personol unigol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth.

277. Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru[9] (WPPS) yn amlinellu'r egwyddorion allweddol mewn perthynas â chaffael yng Nghymru. Mae'r datganiad hwn yn cynnig ymagwedd gwerth am arian at gaffael sy'n ystyried effaith economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol dros y tymor byr a hir.

278. Mae mwy o wybodaeth a chanllawiau ar gaffael cyhoeddus ar gael yn y Canllaw Cynllunio Caffael: http://prp.gov.wales/

279. Dylai awdurdodau lleol adolygu eu Rheolau Sefydlog yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas i'r diben er mwyn sicrhau gofal a chymorth o safon, gan ddefnyddio'r modelau a amlinellir yn adran 16.

280. Mae cydweithio ar draws adrannau ac asiantaethau yn rhan allweddol o gaffael cynaliadwy, llwyddiannus. Mae dull hyblyg ac arloesol sy'n defnyddio deddfwriaeth Ewropeaidd a chanllawiau arfer gorau yn hanfodol.

281. Rhaid i awdurdodau lleol a'u partneriaid sicrhau eu bod yn ystyried cyfleoedd newydd a gyflwynir gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i feithrin datblygiad sefydliadau sy'n cyflawni amryw o amcanion, megis; ail-fuddsoddi elw gyda'r nod o gyflawni amcan y sefydliad, a sicrhau bod elw'n cael ei ddosbarthu yn seiliedig ar

[9] http://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2012/welshprocurement/?skip=1&lang=cy

ystyriaethau cyfranogiad; sicrhau bod strwythurau rheoli neu berchnogaeth y sefydliad yn seiliedig ar egwyddorion cyfranogiad neu berchnogaeth gweithwyr cyflogedig ac yn gofyn am gyfranogiad gweithredol gweithwyr cyflogedig, defnyddwyr neu randdeiliaid.

282. Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn cynnwys dyletswydd newydd o gymesuredd, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu dulliau caffael sy'n gymesur ac yn seiliedig ar risg. Mae hyn yn helpu i sicrhau nad yw cyflenwyr llai o faint a sefydliadau'r trydydd sector yn cael eu hatal rhag ennill contractau yn unigol, fel consortia neu drwy rolau yn y gadwyn gyflenwi.

283. Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 hefyd yn gallu cefnogi'r gwaith o weddnewid y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu, er enghraifft, mae Rheoliad 40 yn amlinellu sut y gall awdurdodau contractio geisio neu dderbyn cyngor gan arbenigwyr annibynnol neu awdurdodau neu gyfranogwyr y farchnad wrth baratoi'r caffael. Mae'r dull hwn wedi'i ymgorffori yn WPPS a'r Canllaw Cynllunio Caffael, ac mae'n cydnabod y manteision a'r dulliau arloesol y mae modd eu cyflawni trwy ymgysylltu â chyflenwyr yn gynharach a cheisio cael adborth o'r Farchnad. Mae Rheoliadau 20 a 77 yn rhoi cyfle i gaffael gael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n cryfhau ac yn helpu i greu mentrau sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

284. <u>Rhaid i awdurdodau lleol:</u>

- **Gryfhau cyfraniad pobl sydd angen gofal a chymorth at gynllunio manylebau tendr i sicrhau bod gwasanaethau yn briodol i angen dinasyddion ac i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn addas ac yn briodol i wasanaethau cymdeithasol ar eu newydd wedd**
- **Defnyddio mwy o ddeddfwriaeth gaffael gefnogol a galluogi**
- **Ystyried y manteision ehangach i gymdeithas i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd sy'n ystyried yr economi leol, gofynion cymdeithasol a'r effaith ar yr amgylchedd.**

## Cydweithredu

285. Bydd dull cydweithredol yn sicrhau bod yr egwyddor o lais a rheolaeth yn rhan annatod o'r gwaith o gynllunio a gweithredu gwasanaethau.

286. Rhaid i awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol weithio gyda'i gilydd i gynllunio a sefydlu gwasanaethau i wella canlyniadau personol. Mae Pennod 1 o'r cod ymarfer hwn yn diffinio llesiant ac yn amlinellu sut i hyrwyddo llesiant.

287. Mae adran 166 o’r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i’w gwneud hi’n ofynnol i gyfuniad o awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol lunio trefniadau partneriaeth i gyflawni swyddogaethau penodol. Mae Rheoliadau ar wahân sydd wedi’u datblygu o dan adran 166 yn ei gwneud hi’n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol a’r awdurdodau lleol ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol roi cytundeb partneriaeth ar waith i gynnal yr asesiad poblogaeth.

288. Bydd asesiad cydweithredol o’r fath yn galluogi awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i nodi sut i ddiwallu angen ar y cyd, yn unol ag ymagwedd Llywodraeth Cymru at ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus.

289. Os bydd gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ddiddordeb cyffredin mewn gwasanaethau cynllunio, hyrwyddo a darparu, dylent weithio gyda’i gilydd i ystyried a fydd modelau busnes dielw, amgen yn diwallu anghenion llesiant eu poblogaeth leol.

290. Mae’r canllawiau statudol ar Ran 9 yn cynnwys cyngor pellach ar gytundebau partneriaeth.

291. <u>Rhaid i awdurdodau lleol:</u>

- **Weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o bartneriaid i lywio’r asesiad poblogaeth ac agweddau eraill ar adran 14 o’r Ddeddf, gan ddefnyddio dull cydweithredol i nodi angen, angen nas diwallwyd a gwasanaethau ar gyfer y boblogaeth**
- **Gweithio gyda phobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, i lywio’r asesiad poblogaeth**
- **Cydweithredu â phartneriaid i nodi ystod a lefel y gwasanaethau ataliol, fel sy’n ofynnol gan adran 15 o’r Ddeddf, i leihau angen pobl am ofal a chymorth ac i hwyluso byw’n annibynnol**
- **Cydweithredu â Byrddau Iechyd Lleol, adrannau o fewn pob awdurdod lleol, megis addysg a thai, ac awdurdodau lleol eraill**
- **Cryfhau’r gwaith o rannu arfer da, trwy gyfathrebu rheolaidd, a chefnogi’r gwaith o sefydlu a defnyddio rhwydweithiau a fforymau priodol i ddatblygu, hyrwyddo a chynllunio mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau sy’n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a’r trydydd sector**
- **Cynnwys pobl ar bob lefel a cham mewn perthynas â’r gwasanaethau a fydd yn darparu gofal a chymorth iddynt**
- **Ymgysylltu â hyfforddiant sy’n cefnogi cydweithredu.**

**Trefniadau pontio**

292. Bydd dyletswydd gyffredinol adran 16 yn dod i rym ym mis Ebrill 2016. Fodd bynnag, mae llawer o awdurdodau lleol eisoes yn cymryd camau i

